Ambiwlans Awyr Cymru

Eleni dewiswyd Ambiwlans Awyr Cymru fel elusen ein heglwys. Elusen i Gymru gyfan sy'n darparu gwasanaeth awyr brys hanfodol i bobl sydd â salwch neu anaf ddifrifol yw hon.

Oherwydd ei phoblogaeth wasgaredig a'i thirwedd amrywiol mae llawer o bobl Cymru yn byw mewn mannau anghysbell, ymhell o adrannau damweiniau. Ar ben hyn, mae tagfeydd traffig a nifer cynyddol o gerbydau ar ein ffyrdd yn golygu bod rhai ambiwlansys yn ei chael hi'n anodd cyrraedd lle mae eu hangen ar frys ar adegau. Am resymau tebyg y cafodd y gwasanaeth ambiwlans awyr ei gyflwyno 10 mlynedd yn ôl.

Erbyn hyn mae tri chriw hofrennydd wedi eu lleoli ledled Cymru – yn Abertawe, Y Trallwng a Chaernarfon. Mae'n bosibl lansio pob un o'r hofrenyddion o fewn 3 munud o dderbyn galwad frys. O'r tair canolfan awyr, gall hofrennydd fod unrhyw le yng Nghymru o fewn prin 20 munud.

Wyddoch chi fod ? Ambiwlans Awyr Cymru yn ymateb i dros **1000** o alwadau bob blwyddyn**;** tua **40%** o alwadau yn ymwneud â damweiniau ffordd**;** y gost o ddarparu'r gwasanaeth ar draws Cymru yn **£5 miliwn** y flwyddyn **a'r** gost o ymateb i un alwad yn **£1200**

Bellach mae gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn adnabyddus drwy'r wlad, gyda channoedd o bobl yn ddyledus iddo am achub eu bywydau. Ond i gynnal gwasanaeth mor werthfawr â hwn mae angen ein cefnogaeth ni fel pobl Cymru. Gyda'r gost flynyddol yn £5miliwn mae'r elusen yn dibynnu ar gyfraniadau a rhoddion gan y cyhoedd.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni dathlodd Ambiwlans Awyr Cymru ei ben-blwydd yn 10 mlwydd oed. Gan ddechrau drwy ddarparu un hofrennydd am 5 diwrnod yr wythnos, mae'r elusen wedi datblygu i fod yn un o'r gweithrediadau ambiwlans awyr prysuraf yn y DU - gyda thri hofrennydd sy'n medru cyrraedd unrhyw ran o Gymru mewn 20 munud a 14,000 o gyrchoedd achub wedi eu cwblhau hyd yma.

Arbed amser, arbed bywydau yw arwyddair y gwasanaeth – dewch i ni, aelodau Minny Street , wneud ein rhan eleni gan gefnogi'r digwyddiadau codi arian fydd yn cael eu trefnu yn ein plith a sicrhau bod y geiriau hynny yn parhau yn realiti ar gyfer y dyfodol.

Bu Mr Alun Davies, un o ymddiriedolwyr elusen **Ambiwlans Awyr Cymru** yn annerch yr Oedfa Fore Sul, 2 Hydref 2011. Dywedodd bod Ambiwlans Awyr Cymru yn *"cynnig gwasanaeth awyr brys hanfodol i'r rheini sy'n dioddef salwch neu anafiadau sy'n peryglu bywyd.* Aeth ymlaen i sôn

mai Cymru oedd yr unig wlad yn Ewrop heb wasanaeth ambiwlans awyr pan sefydlwyd yr elusen yn 2001. Ers hynny, mae'r criwiau awyr wedi hedfan dros 8,000 o deithiau ledled Cymru, gan achub bywydau di-rif yn ystod y cyfnod hwn.

Soniodd Mr Davies (llun) bod cyflymder yr hofrenyddion a'u gallu i gyrraedd mannau anghysbell yn golygu eu bod yn ateb delfrydol i broblemau, yn arbennig yng nghyd-destun mannau mwyaf gwledig ein gwlad. Gall hefyd gynnig y dull cyflymaf o gyrraedd mannau sy'n anodd i ambiwlans tir eu cyrraedd fel traethau, dociau a chyrsiau golff.

Cawsom ein hatgoffa o farn meddygon fod gobaith claf i oroesi'n llawer mwy os bydd yn cyrraedd ysbyty o fewn awr. Gelwir hyn yn aml yn 'Awr Aur'. Gall y criwiau awyr fod yn unrhyw le yng Nghymru o fewn llai na 15 munud gan sicrhau bod y parafeddyg yn cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, y claf yn cyrraedd ysbyty'n gyflym ac felly'n rhyddhau ambiwlansys tir ar gyfer gwaith arall.

Uchafbwynt yr Oedfa oedd gwrando ar un o'n cyd-aelodau Huw Euron yn canu "*Anfonaf Angel*"; cân a ysgrifennwyd gan gyd-aelod arall, Hywel Gwynfryn, a'i chyfansoddi gan Robat Arwyn ar gyfer pen-blwydd Ambiwlans Awyr Cymru yn 10 mlwydd oed.